(b) yn y diffiniad o "planning decision", ar ôl "Part 3 of the 1990 Act" mewnosoder ", Part 3 of the 2026 Act".

436 Yn Atodlen 9—

(a) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (1)(a), hepgorer "and Wales";

(ii) ar ôl is-baragraff (1)(a) mewnosoder—

"(aa) in the case of land in Wales, an amount calculated in accordance with subsections (3) to (6), (8) and (9) of section 321 of the Planning (Wales) Act 2026 ("the 2026 Act");";

(iii) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(2A) The provisions of section 321 of the 2026 Act specified in sub-paragraph (1)(aa) have effect for the purposes of this paragraph as if—

(a) in paragraph (c) of subsection (3), "under section 320(1) or (2) and is" were omitted;

(b) after that paragraph there were inserted the paragraph (d) set out in sub-paragraph (2)(b) of this paragraph;

(c) in the definition of "proceeding giving rise to compensation" in subsection (9)—

(i) paragraph (a) were omitted;

(ii) in paragraph (b), "in relation to compensation payable under any other provision mentioned in this section," were omitted;

(iii) in that paragraph, the reference to the imposition of a requirement included a reference to anything that may be done as a result of an order made under section 39 or 41.";

(b) ym mharagraff 7—

(i) yn is-baragraff (2)(a), hepgorer "and Wales";

(ii) ar ôl is-baragraff (2)(a) mewnosoder—

"(aa) in the case of land in Wales—

(i) paragraph 5(2) to (9) of Schedule 18 to the 2026 Act apply in relation to an order under paragraph 4 as if it were an order under section 317 of that Act;

(ii) paragraph 9(2) to (9) of Schedule 18 to the 2026 Act apply in relation to an order under paragraph 5 as if it were an order under section 318 of that Act;".

Deddf Trefn Gyhoeddus 2023 (p. 15)

437 Yn adran 6(9) o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 2023, yn y diffiniad o "statutory undertaker"—

(a) ar ôl ""statutory undertaker"" mewnosoder "—

(a) where the apparatus mentioned in subsection (1)(b) is in England,";

(b) ar ôl y paragraff (a) a grëir gan y diwygiad hwnnw mewnosoder—

"(b) where the apparatus mentioned in subsection (1)(b) is in Wales, a person who is a statutory undertaker within the meaning given by section 303 of the Planning (Wales) Act 2026".

Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 (p. 55)

438 Mae DFfBA 2023 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

439 Yn adran 93—

(a) os yw is-adran (3) mewn grym, hepgorer is-adran (3);

(b) os nad yw is-adran (3) mewn grym, yn lle is-adran (3) rhodder—

"(3) Omit subsection (6)."

440 Yn adran 117—

(a) hepgorer is-adran (2)(b);

(b) hepgorer is-adran (4)(b).

441 Os nad yw adran 139 mewn grym, yn adran 139—

(a) yn is-adran (2), hepgorer "and Wales";

(b) yn is-adran (3)(a), yn lle "after "imposition" insert ", in Greater London and Wales,"" rhodder "for "England" substitute "Greater London"";

(c) yn is-adran (4)—

(i) ym mharagraff (a), hepgorer "or Wales";

(ii) ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

"(aa) omit subsection (2);";

(iii) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) omit subsection (4);";

(iv) yn lle paragraff (d) rhodder—

"(d) omit subsection (5);";

(d) ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) Omit section 213(2).

(5B) Omit section 214(5)."

442 Os yw adran 139 mewn grym, hepgorer adran 139(4)(c) a (d).

443 Hepgorer adran 165(3).

444 Hepgorer adran 174(2)(e).

445 Yn Atodlen 6—

(a) hepgorer paragraff 3(b);

(b) ym mharagraff 4—

(i) os yw is-baragraff (b) mewn grym, hepgorer is-baragraff (b);

(ii) os nad yw is-baragraff (b) mewn grym, yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) omit subsection (6).";

(c) os nad yw paragraff 6 mewn grym, ym mharagraff 6, yn lle'r geiriau o "for "shall be" substitute" hyd at y diwedd rhodder "after "development plan" insert ", to any national development management policies so far as they are material"";

(d) os nad yw paragraff 7 mewn grym, ym mharagraff 7, yn lle'r geiriau o "for "shall have regard" substitute" hyd at y diwedd rhodder "after "development plan" insert ", to any national development management policies so far as they are material"";

(e) os nad yw paragraff 8 mewn grym, ym mharagraff 8, yn lle'r geiriau o "for "shall have regard" substitute" hyd at y diwedd rhodder "after "development plan" insert ", to any national development management policies so far as they are material"";

(f) os nad yw paragraff 10 mewn grym, ym mharagraff 10, yn lle'r geiriau o "for" hyd at y diwedd rhodder "after "development plan" insert ", to any national development management policies so far as they are material"".

446 Yn Atodlen 8—

(a) ym mharagraff 7(2), os nad yw paragraff (b) mewn grym, yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) in paragraph (a), for "20, 21(5)(b) or 27(3)(a)" substitute "15D, 15DB, 15H(3)(b) or 15HA(6)(a);";

(b) hepgorer paragraff 22;

(c) ym mharagraff 23(2)—

(i) os yw paragraff (c) mewn grym, hepgorer paragraff (c);

(ii) os nad yw paragraff (c) mewn grym, ym mharagraff (c), yn lle "(bc)," rhodder "(bc) or";

(d) os nad yw paragraff 31(3) mewn grym, ym mharagraff 31(3), hepgorer "to 4" yn y ddau le.

447 Yn Atodlen 9, os yw paragraff 4 o Atodlen 11 i DFfBA 2023 mewn grym, hepgorer paragraff 1(15).

448 Yn Atodlen 10—

(a) hepgorer paragraff 6(a);

(b) hepgorer paragraff 7;

(c) hepgorer paragraff 8(a).

449 Yn Atodlen 11—

(a) os nad yw paragraffau 4 a 5 mewn grym, ar ôl paragraff 1 mewnosoder—

"1A In section 5(3), for "to 95" substitute "to 93J".";

(b) os yw paragraffau 3 i 6 mewn grym—

(i) ym mharagraff 2, yn lle "after "92," insert" rhodder "for "94" substitute";

(ii) hepgorer paragraffau 3 i 6;

(c) os nad yw paragraffau 3 i 6 mewn grym, yn lle paragraffau 3 i 6 rhodder—

"3 Omit sections 94 to 96 (completion notices).

4 In section 202G (tree preservation regulations: supplementary), in subsection (2), for "96" substitute "93J".

5 In section 220 (regulations controlling display of advertisements), in subsection (2), for "96" substitute "93J".";

(d) os nad yw paragraff 5 mewn grym, ym mharagraff 7, yn lle "after paragraph (b)" rhodder "omit paragraph (d) and";

(e) os yw paragraff 12 mewn grym, hepgorer paragraff 12;

(f) os nad yw paragraff 12 mewn grym, yn lle paragraff 12 rhodder—

"12 In section 324 (rights of entry), in subsection (1)(c), for "sections 94 and 96" substitute "section 93H".";

(g) os nad yw paragraff 6 mewn grym, ar ôl paragraff 14 mewnosoder—

"14A In Schedule 16 (provisions referred to in sections 314 to 319), in Part 1, in the entry relating to sections 96 to 98, for "96" substitute "96A".";

(h) os nad yw paragraffau 4 a 5 mewn grym, ym mharagraff 15, yn lle "after the entry relating to sections 91 to 93 insert" rhodder "for the entries relating to sections 94 and 95 substitute";

(i) os nad yw paragraff 7 mewn grym, ar ôl paragraff 15 mewnosoder—

"16 In Schedule 16, in Part 6, in the entry relating to section 284, for "(d)" substitute "(ba)"."

Deddf Cynllunio a Seilwaith 2025 (p. 34)

450 Mae DCS 2025 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

451 Yn adran 51, os nad yw is-adran (4) mewn grym, yn lle is-adran (4) rhodder—

"(4) Omit subsection (10)."

452 Yn adran 54, os nad yw is-adran (2) mewn grym, yn is-adran (2), yn lle "after "under" insert "sections" rhodder "after "notwithstanding" insert "any provision made by or under sections".

453 Yn Atodlen 2, os nad yw paragraff 1 mewn grym, ym mharagraff 1(4), (5), (6) a (7)(a), yn lle'r geiriau o "for" hyd at y diwedd rhodder "after "local planning authority" insert "or strategic planning authority"".

ATODLEN 3
(a gyflwynir gan adran 2)

DIWYGIADAU I FESURAU CYNULLIAD A DEDDFAU GAN SENEDD CYMRU

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (mccc 2)

1 Os nad yw adran 170(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) mewn grym, ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009—

(a) hepgorer adran 51(2);

(b) hepgorer Atodlen 2.

Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (dccc 6)

2 Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

3 Yn adran 7, ar ôl is-adran (6) mewnosoder—

"(7) Yn is-adran (1), ystyr "gorchymyn datblygu" yw gorchymyn a wneir o dan adran 44 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026."

4 Yn adran 39—

(a) hepgorer is-adran (1);

(b) ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(5) At ddibenion y Rhan hon, mae tystysgrif cyfreithlondeb a ddyroddir o dan adran 156 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026 mewn cysylltiad â defnydd o dir i'w thrin fel caniatâd cynllunio ar gyfer y defnydd hwnnw a roddwyd ac eithrio drwy orchymyn datblygu."

5 Yn adran 62, yn y diffiniad o "caniatâd cynllunio", yn lle "Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990" rhodder "Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

6 Yn Atodlen 4, hepgorer paragraff 6 a'r pennawd italig o'i flaen.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)

7 Yn Atodlen 4 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, hepgorer paragraffau 8 i 10 a'r pennawd italig o'u blaenau.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4)

8 Mae DCC 2015 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

9 Hepgorer Rhannau 1 a 2.

10 Hepgorer adran 3 a'r pennawd italig o'i blaen.

11 Hepgorer adrannau 7 i 15 a'r penawdau italig o flaen adrannau 7, 10 ac 11.

12 Hepgorer Rhannau 4 a 5.

13 Hepgorer adrannau 28 i 38 a'r penawdau italig o flaen adrannau 28, 31, 33, 35, 37 a 38.

14 Yn adran 39—

(a) hepgorer is-adran (1);

(b) os nad yw adran 54(2) o DCS 2025 mewn grym, hepgorer is-adran (2);

(c) hepgorer is-adran (4);

(d) hepgorer is-adran (5)(a).

15 Hepgorer adrannau 40 i 42 a'r pennawd italig o'u blaenau.

16 Hepgorer adran 43.

17 Hepgorer adrannau 45 a 46.

18 Yn adran 47, hepgorer is-adrannau (1) a (2).

19 Hepgorer adrannau 48 i 50.

20 Hepgorer adran 57.

21 Yn adran 58—

(a) yn is-adran (1)—

(i) hepgorer paragraff (a);

(ii) ym mharagraff (b), yn lle "adrannau 56 a 57" rhodder "adran 56";

(b) hepgorer is-adran (4)(a).

22 Yn Atodlen 2—

(a) hepgorer paragraffau 8 i 15 a'r pennawd italig o'u blaenau;

(b) hepgorer paragraffau 25 i 27;

(c) hepgorer paragraff 29 a'r pennawd italig o'i flaen;

(d) hepgorer paragraff 34(3).

23 Hepgorer Atodlenni 3 a 4.

24 Yn Atodlen 5—

(a) hepgorer paragraff 2(4);

(b) hepgorer paragraff 3(c);

(c) hepgorer paragraffau 5 a 6;

(d) hepgorer paragraff 7(c);

(e) hepgorer paragraffau 8 i 18 a'r pennawd italig o'u blaenau;

(f) hepgorer paragraff 25.

25 Yn Atodlen 7—

(a) hepgorer paragraff 2;

(b) hepgorer paragraffau 3 i 7 a'r penawdau italig o flaen paragraffau 3 a 5.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1)

26 Yn y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, yn lle ""development" yn adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder ""datblygiad" yn adran 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026 (gweler hefyd adrannau 4 i 6 o'r Ddeddf honno)" —

(a) paragraff 11(2) o Atodlen 3;

(b) paragraff 10(2) o Atodlen 8A;

(c) paragraff 10(2) o Atodlen 9;

(d) paragraff 8(2) o Atodlen 9B;

(e) paragraff 8(2) o Atodlen 9C.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3)

27 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

28 Yn adran 6—

(a) yn is-adran (9), yn y diffiniad o "awdurdod cyhoeddus", ym mharagraff (e), yn lle "awdurdod cynllunio lleol" rhodder "awdurdod cynllunio";

(b) yn is-adran (10), yn lle'r diffiniad o "awdurdod cynllunio lleol" rhodder—

"mae i "awdurdod cynllunio" ("*planning authority*") yr ystyr a roddir gan adran 7 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026;".

29 Yn Atodlen 2, hepgorer paragraff 8 a'r pennawd italig o'i flaen.

Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (dccc 1)

30 Mae Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

31 Yn Atodlen 20, ym mharagraff 1(4)(g), ar ôl "sy'n" mewnosoder "awdurdod cynllunio o fewn yr ystyr a roddir gan adran 7 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026 neu'n".

32 (1) Mae Atodlen 21 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1(2), yn y diffiniad o "datblygiad", yn lle "i "development" gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8) (gweler adran 55 o'r Ddeddf honno)" rhodder "gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026 (gweler adrannau 3 i 6 o'r Ddeddf honno)".

(3) Ym mharagraff 2(2)—

(a) yn y diffiniad o "addasiad", yn lle "adran 106A(1) (addasu a chyflawni rhwymedigaethau cynllunio) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "adran 167(1) (addasu a rhyddhau rhwymedigaethau cynllunio) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026";

(b) yn y diffiniad o "rhwymedigaeth gynllunio", yn lle "yw rhwymedigaeth gynllunio o fewn yr ystyr a roddir i "planning obligation" gan adran 106 o'r Ddeddf honno yr ymrwymir iddi yn unol ag is-adran (9)" rhodder "("*planning obligation*") yw rhwymedigaeth gynllunio o fewn yr ystyr a roddir gan adran 165 o'r Ddeddf honno yr ymrwymir iddi yn unol ag is-adran (6)".

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1)

33 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

34 Yn adran 68, yn y diffiniad o "cynllun datblygu strategol", yn lle "i "strategic development plan" yn adran 60M o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5)" rhodder "yn adran 17 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

35 Yn adran 74(4), yn lle "Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5)" rhodder "Rhan 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

36 Yn adran 77(3)(g), yn lle "Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5)" rhodder "Ran 2 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

37 Yn adran 88(1)—

(a) yn lle "Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) a deddfiadau eraill" rhodder "deddfiadau";

(b) hepgorer paragraff (a).

38 Yn Atodlen 9—

(a) hepgorer paragraffau 1 i 8 a'r pennawd italig o'u blaenau;

(b) ym mharagraff 12, hepgorer is-baragraffau (a), (b) ac (h);

(c) hepgorer paragraffau 23 i 29 a'r pennawd italig o'u blaenau.

39 Yn Atodlen 14, hepgorer paragraff 4 a'r pennawd italig o'i flaen.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (dsc 3)

40 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

41 Yn adran 21(9), yn lle "adran 59 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "adran 44 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

42 Yn adran 58(2)(b), yn lle "y Bennod hon" rhodder "Pennod 6".

43 Yn adran 75(1), yn y diffiniad o "gwaith", ym mharagraff (b), yn lle ""agriculture" yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "Deddf Cynllunio (Cymru) 2026".

44 Yn adran 79(2), yn lle "Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "Deddf Cynllunio (Cymru) 2026".

45 Yn adran 83(4), yn lle "Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "Deddf Cynllunio (Cymru) 2026".

46 Yn adran 91—

(a) yn is-adran (1)(b), yn lle "dystysgrif a ddyroddir gan y ceisydd sy'n datgan" rhodder "ddeclarasiwn gan y ceisydd";

(b) yn is-adran (2)(a), yn lle "dystysgrif" rhodder "ddeclarasiwn";

(c) yn is-adran (5), ym mharagraff (a), yn lle "dyroddi tystysgrif sy'n cynnwys datganiad" rhodder "gwneud declarasiwn", ac ym mharagraff (b), yn lle "ddyroddi tystysgrif sy'n cynnwys datganiad" rhodder "wneud declarasiwn".

47 Yn adran 96(2)(b), yn y testun Cymraeg, yn lle "safle'r" rhodder "gosodiad yr".

48 Yn adran 114(6)(b), yn y testun Cymraeg, yn lle "safle'r" rhodder "gosodiad yr".

49 Yn adran 118(2)(d), yn lle "neu a gaiff ei drin fel pe bai wedi ei roi ar gais o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "ar gais o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

50 Yn adran 128(6), yn lle "ar yr apêl (gan gynnwys unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud ag arfer y pwerau a roddir gan is-adran (3))" rhodder "mewn perthynas â rhoi cydsyniad adeilad rhestredig neu ddileu amod mewn cydsyniad adeilad rhestredig o dan is-adran (3)".

51 Yn adran 140(4)(b), yn lle "Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "Deddf Cynllunio (Cymru) 2026".

52 Yn adran 143—

(a) yn is-adran (2), yn lle'r geiriau ar ôl "gweler" rhodder "adrannau 265 i 270 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026 (cyfeddu, gwaredu a datblygiad tir, cael meddiant o anheddau etc.)";

(b) yn is-adran (4), yn lle'r geiriau ar ôl "gweler" rhodder "adrannau 274 i 278 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026 (tiroedd comin, mannau agored, rhandiroedd tanwydd neu ardd gae, tir cysegredig a chladdfeydd)";

(c) ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(5) Am ddarpariaeth sy'n ymwneud â hawliau a chyfarpar ymgymerwyr statudol a gweithredwyr rhwydweithiau cod cyfathrebiadau electronig mewn achosion pan fo tir yn cael ei gaffael, neu pan ellid ei gaffael, o dan y Bennod hon, gweler adrannau 314 i 318, 320 a 321 o'r Ddeddf honno."

53 Yn adran 148(7)(c), yn lle "a gyfansoddir o dan adran 2(1B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (c. 8)" rhodder "a sefydlir o dan adran 8 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

54 Yn adran 153(9), yn lle "i "appropriate minister" gan adran 265 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "gan adran 308 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

55 Yn adran 160(2)(b), yn lle "Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "Deddf Cynllunio (Cymru) 2026".

56 Yn adran 167(2)—

(a) yn lle paragraff (c) rhodder—

"(c) gwneud darpariaeth ynghylch swm ffi neu dâl (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n pennu'r swm neu'n rhoi swyddogaeth o'i bennu, neu ddarpariaeth ynghylch sut y mae'r swm i'w gyfrifo a phwy sydd i wneud y cyfrifiad);";

(b) hepgorer paragraff (g).

57 Yn adran 168(1), yn lle "adrannau 319ZA i 319ZD o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8) (cyflawni" rhodder "adrannau 361 i 363 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026 (arfer".

58 Yn adran 169(6)(e), yn lle "adran 314A(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "adran 404 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

59 Yn adran 172(3), yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) gwneud darpariaeth ynghylch swm ffi neu dâl (a gaiff gynnwys darpariaeth sy'n pennu'r swm neu'n rhoi swyddogaeth o'i bennu, neu ddarpariaeth ynghylch sut y mae'r swm i'w gyfrifo a phwy sydd i wneud y cyfrifiad);".

60 Hepgorer adran 173(4).

61 Yn adran 182(3), ym mharagraffau (a) a (b), yn lle'r geiriau o "a wneir" hyd at y diwedd rhodder "pa un ai cyn neu ar ôl iddo gael ei wneud neu ei gadarnhau".

62 Yn adran 197(1)(b), ar ôl "chyfeiriad" mewnosoder "post".

63 Yn adran 199(3)(b), ar ôl "chyfeiriad" mewnosoder "post".

64 Yn adran 210—

(a) yn lle'r diffiniad o "datblygiad" rhodder—

"mae i "datblygiad" ("*development*") yr ystyr a roddir gan adran 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026 (gweler hefyd adrannau 4 i 6 o'r Ddeddf honno);";

(b) ar ôl y diffiniad o "les" mewnosoder—

"mae "morgais" ("*mortgage*") yn cynnwys unrhyw arwystl neu hawlrwym ar unrhyw eiddo ar gyfer sicrhau arian neu gyfwerth ariannol;";

(c) yn lle'r diffiniad o "awdurdod cynllunio" rhodder—

"mae i "awdurdod cynllunio" ("*planning authority*") yr ystyr a roddir gan adran 7 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026;";

(d) yn y diffiniad o "caniatâd cynllunio", yn lle "i "planning permission" gan adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "gan adran 408 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026";

(e) yn lle'r diffiniad o "ymgymerwr statudol" rhodder—

"mae i "ymgymerwr statudol" ("*statutory undertaker*") yr ystyr a roddir gan adran 303 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026, ac mae cyfeiriadau at ymgymeriad ymgymerwr statudol yn gyfeiriadau at ei ymgymeriad statudol o fewn yr ystyr a roddir gan yr adran honno."

65 Yn Atodlen 2, ym mharagraff 6, yn lle "Pan fo person a benodir yn aelod o staff Llywodraeth Cymru, mae swyddogaethau'r person o wneud" rhodder "Mae swyddogaethau person a benodir o ran gwneud".

66 Yn Atodlen 9, ym mharagraff 3(3), yn lle "i'r person hwnnw" rhodder "i bob un o'r personau y'i cyflwynwyd iddynt".

67 (1) Mae Atodlen 12 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 2(2), yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle "ac eithrio'r Atodlen hon neu adran 174" rhodder "ac eithrio adran 173 neu'r Atodlen hon".

(3) Ym mharagraff 3, ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Mae costau'r ymchwiliad lleol neu'r gwrandawiad i'w talu gan Weinidogion Cymru; ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 180."

(4) Hepgorer paragraff 5(4)(a).

(5) Ym mharagraff 6(3), yn lle "baragraff 5" rhodder "adran 173(3)(b)".

(6) Ym mharagraff 7(2), yn lle "Pan fo person a benodir yn aelod o staff Llywodraeth Cymru, mae swyddogaethau'r person" rhodder "Mae swyddogaethau person a benodir".

68 Yn Atodlen 13—

(a) hepgorer paragraff 10(b);

(b) hepgorer paragraffau 72 i 91;

(c) hepgorer paragraff 166(a)(ii);

(d) hepgorer paragraff 194 a'r pennawd italig o'i flaen.

Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (dsc 4)

69 Yn Atodlen 2 i Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, hepgorer paragraff 5 a'r pennawd italig o'i flaen.

Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3)

70 Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

71 Yn adran 1(c), yn lle "adran 60(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5)" rhodder "adran 12(3) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

72 Yn adran 36(4)(a), hepgorer "lleol".

73 Yn adran 75(6), yn lle'r geiriau o "ystyr" hyd at y diwedd rhodder "mae i "ymgymerwr statudol" yr ystyr a roddir gan adran 303 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

74 Hepgorer adrannau 98 a 99.

75 Yn adran 125(7), yn lle'r diffiniad o "ymgymerwyr statudol" rhodder—

"mae i "ymgymerwyr statudol" ("*statutory undertakers*") yr ystyr a roddir gan adran 303 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026."

76 Yn adran 133(1), yn lle "â "development" yn DCGTh 1990" rhodder "ag sydd iddo yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2026".

77 Yn adran 143(1)—

(a) yn y diffiniad o "adeilad", yn lle "i "building" gan adran 336(1) o DCGTh 1990" rhodder "gan adran 408 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026";

(b) yn lle'r diffiniad o "awdurdod cynllunio" rhodder—

"mae i "awdurdod cynllunio" ("*planning authority*") yr ystyr a roddir gan adran 7 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026;";

(c) yn y diffiniad o "caniatâd cynllunio", yn lle "DCGTh 1990" rhodder "Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026";

(d) yn lle'r diffiniad o "defnyddio" rhodder—

"nid yw "defnyddio" ("*use*"), mewn perthynas â thir, yn cynnwys defnyddio ar gyfer cynnal gweithrediadau (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 4 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026) ar y tir;".

78 Yn Atodlen 3—

(a) hepgorer paragraff 4 a'r pennawd italig o'i flaen;

(b) hepgorer paragraff 9 a'r pennawd italig o'i flaen;

(c) hepgorer paragraff 12 a'r pennawd italig o'i flaen.

Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (dsc 3)

79 Yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025—

(a) hepgorer paragraff 8 a'r pennawd italig o'i flaen;

(b) ym mharagraff 20, hepgorer is-baragraffau (3) a (4).

Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026

80 Yn adran 28(5) o Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026—

(a) yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) adran 374, 376 neu 377 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026,";

(b) hepgorer paragraff (c) (ond nid y "neu" ar ei ôl).

Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) 2026

81 Yn adran 111(1) o Ddeddf Diogelwch Adeiladu (Cymru) 2026, yn y diffiniad o "caniatâd cynllunio", yn lle "i "planning permission" gan adran 336(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8)" rhodder "gan adran 408 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2026".

ATODLEN 4
(a gyflwynir gan adran 2)

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH ARALL

RHAN 1

GORCHMYNION YN Y CYFRIN GYNGOR

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672)

1 Yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, hepgorer y cofnodion ar gyfer—

(a) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

(b) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) 1995.

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253)

2 Yn Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000, hepgorer paragraff (d).

Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644)

3 Mae Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

4 Hepgorer erthygl 25.

5 Hepgorer erthygl 44.

RHAN 2

MESURAU GAN EGLWYS LOEGR

Mesur Atgyweirio Adeiladau Bywoliaeth 1972 (Rhif 2)

6 Yn adran 2(3) o Fesur Atgyweirio Adeiladau Bywoliaeth 1972, ar ôl "section 1 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990" mewnosoder "or section 76 of the Historic Environment (Wales) Act 2023".

Mesur Cenhadaeth a Bugeiliol 2011 (Rhif 3)

7 Yn adran 106(1) o Fesur Cenhadaeth a Bugeiliol 2011—

(a) yn y diffiniad o "listed building" a "conservation area"—

(i) ar ôl ""conservation area"" mewnosoder "—

(a) in relation to England,";

(ii) ar ôl y paragraff (a) a grëir gan y diwygiad hwnnw mewnosoder—

"(b) in relation to Wales, have the meanings given by section 210 of the Historic Environment (Wales) Act 2023;";

(b) yn y diffiniad o "local planning authority" —

(i) ar ôl ""local planning authority"" mewnosoder " —

(a) in relation to England,";

(ii) ar ôl y paragraff (a) a grëir gan y diwygiad hwnnw mewnosoder —

"(b) in relation to Wales, means a planning authority within the meaning given by section 7 of the Planning (Wales) Act 2026;".

Mesur Awdurdodaeth Eglwysig a Gofal Eglwysi 2018 (Rhif 3)

8 Mae Mesur Awdurdodaeth Eglwysig a Gofal Eglwysi 2018 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

9 Yn adran 44(8) —

(a) ar ôl "means" mewnosoder " —

(a) in the case of an area in England,";

(b) ar ôl y paragraff (a) a grëir gan y diwygiad hwnnw mewnosoder —

"(b) in the case of an area in Wales, the planning authority for the purposes of the Historic Environment (Wales) Act 2023 (see section 210 of that Act)."

10 Yn adran 46(1)(d), ar ôl "Town and Country Planning Act 1990" mewnosoder "or a tree preservation order or woodland preservation order under the Planning (Wales) Act 2026".

11 Yn adran 55(8) —

(a) ar ôl is-baragraff (c) (ond o flaen yr "or" sy'n ei ddilyn) mewnosoder —

"(ca) the Historic Environment (Wales) Act 2023,

(cb) the Planning (Wales) Act 2026,";

(b) ym mharagraff (d), yn lle "(b) or (c)" rhodder "(b), (c), (ca) or (cb)".

12 Yn adran 63 —

(a) yn is-adran (5), ar y dechrau mewnosoder "In relation to England,";

(b) ar ôl is-adran (5) mewnosoder —

"(5A) In relation to Wales, "listed building" and "conservation area" each have the same meaning as in the Historic Environment (Wales) Act 2023, and "local planning authority" means the planning authority for the purposes of that Act (see section 210 of that Act)."

13 Yn adran 77 —

(a) yn is-adran (7)(c), ar y diwedd mewnosoder "or the Historic Environment (Wales) Act 2023";

(b) yn is-adran (8) —

(i) ar ôl "has the same meaning" mewnosoder " —

(a) in relation to England,";

(ii) ar ôl y paragraff (a) a grëir gan y diwygiad hwnnw mewnosoder—

"(b) in relation to Wales, as in the Historic Environment (Wales) Act 2023 (see section 76(5) of that Act)."

14 Yn adran 80(3)—

(a) ar ôl is-baragraff (c) (ond o flaen yr "or" sy'n ei ddilyn) mewnosoder—

"(ca) the Historic Environment (Wales) Act 2023,

(cb) the Planning (Wales) Act 2026,";

(b) ym mharagraff (d), yn lle "(b) or (c)" rhodder "(b), (c), (ca) or (cb)".

15 Yn adran 93—

(a) yn is-adran (4), ar y dechrau mewnosoder "In relation to land in England,";

(b) ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(4A) In relation to land in Wales, "Crown land" has the same meaning as in the Planning (Wales) Act 2026, and "appropriate authority" means the appropriate Crown authority for the purposes of that Act (see section 401 of that Act)."

ATODLEN 5
(a gyflwynir gan adran 3)

DARPARIAETHAU TROSIANNOL A DARPARIAETHAU ARBED

RHAN 1

DARPARIAETHAU RHAGARWEINIOL A DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

Dehongli

1 (1) Yn yr Atodlen hon—

(a) ystyr "deddfiad a ddiddymwyd" yw unrhyw ddeddfiad sydd wedi ei ddiddymu gan y Ddeddf hon;

(b) mae cyfeiriadau at ddiddymu deddfiad yn cynnwys eithrio ei gymhwysiad neu ei effaith neu gyfyngu ar ei gymhwysiad neu ei effaith (pa un ai o ran Cymru neu fel arall).

(2) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "DCC 2017" ("*NPA 2017*") yw Deddf Cynllunio Cymdogaeth 2017 (p. 20);

ystyr "DCGTh 1990" ("*TCPA 1990*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8);

ystyr "DFfBA 2023" ("*LURA 2023*") yw Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 (p. 55).

Y berthynas â Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

2 Mae'r Atodlen hon yn gymwys yn ychwanegol at adrannau 34 a 35 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) (arbedion cyffredinol ac effaith ailddeddfu) ac nid yw'n cyfyngu ar weithrediad yr adrannau hynny mewn cysylltiad â diddymu, dirymu neu ailddeddfu unrhyw ddeddfiad gan y Ddeddf hon na'r brif Ddeddf.

Cyfeiriadau statudol a chyfeiriadau eraill at y brif Ddeddf etc.

3 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gyfeiriad (penodol neu ymhlyg) yn y brif Ddeddf neu mewn unrhyw ddeddfiad arall, neu mewn unrhyw offeryn arall neu unrhyw ddogfen arall—

(a) at ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y brif Ddeddf neu sydd wedi ei mewnosod mewn unrhyw ddeddfiad arall gan y Ddeddf hon, neu

(b) at unrhyw beth a wneir neu sydd i'w wneud o dan ddarpariaeth o'r fath neu at ddibenion darpariaeth o'r fath.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw adeg pan oedd darpariaeth gyfatebol mewn deddfiad a ddiddymwyd (neu mewn unrhyw ddeddfiad cynharach) yn cael effaith, mae'r cyfeiriad i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad—

(a) at y ddarpariaeth gyfatebol fel yr oedd yn cael effaith ar yr adeg honno, neu

(b) at bethau a wnaed neu a oedd i'w gwneud o dan y ddarpariaeth honno neu at ddibenion y ddarpariaeth honno fel yr oedd yn cael effaith ar yr adeg honno.

Dogfennau sy'n cyfeirio at ddeddfiadau a ddiddymwyd

4 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gyfeiriad at ddeddfiad a ddiddymwyd sydd wedi ei gynnwys mewn dogfen a wneir, a gyflwynir neu a ddyroddir ar ôl i'r deddfiad hwnnw gael ei ddiddymu.

(2) Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae'r cyfeiriad i'w ddarllen (yn ôl y cyd-destun) fel pe bai'n cyfeirio, neu'n cynnwys cyfeiriad, at unrhyw ddarpariaeth gyfatebol—

(a) sydd wedi ei chynnwys yn y brif Ddeddf, neu

(b) sydd wedi ei mewnosod mewn unrhyw ddeddfiad arall gan y Ddeddf hon.

Pwerau sy'n arferadwy mewn perthynas â deddfiadau a ddiddymwyd

5 Pan fo deddfwriaeth sylfaenol (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 4(5)) yn rhoi pŵer sy'n arferadwy mewn perthynas â deddfiadau (neu ddeddfiadau o ddisgrifiad penodol) a ddeddfwyd neu a wnaed cyn adeg benodol neu ddigwyddiad penodol, mae'r pŵer yn arferadwy hefyd mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth sy'n ailddeddfu deddfiad o'r fath—

(a) sydd wedi ei chynnwys yn y brif Ddeddf, neu

(b) sydd wedi ei mewnosod mewn unrhyw ddeddfiad arall gan y Ddeddf hon.

Cyfeiriadau at awdurdodau lleol

6 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gyfeiriad at awdurdod lleol mewn—

(a) darpariaeth yn y brif Ddeddf, neu

(b) unrhyw ddeddfiad arall y mae i "awdurdod lleol" ynddo yr ystyr a roddir gan adran 408(1) o'r Ddeddf honno.

(2) Mae'r cyfeiriad, mewn perthynas ag unrhyw adeg cyn i adran 408(1) o'r brif Ddeddf ddod i rym, i'w ddarllen fel pe bai'n cyfeirio at—

(a) unrhyw awdurdod a oedd ar yr adeg honno yn awdurdod lleol o fewn yr ystyr a roddir i "local authority" gan adran 336(1) o DCGTh 1990 (neu gan y ddarpariaeth gyfatebol mewn deddfiad cynharach a oedd mewn grym ar yr adeg honno), a

(b) unrhyw awdurdod arall a oedd yn cael ei drin ar yr adeg honno fel pe bai'n awdurdod lleol at ddibenion—

(i) darpariaeth mewn deddfiad a ddiddymwyd (neu mewn deddfiad cynharach a oedd mewn grym ar yr adeg honno) sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn y brif Ddeddf sy'n cynnwys y cyfeiriad, neu

(ii) y deddfiad arall sy'n cynnwys y cyfeiriad.

Cyfeiriadau at ymgymerwyr statudol ac ymgymeriadau statudol

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw gyfeiriad at ymgymerwr statudol neu ymgymeriad statudol mewn—

(a) darpariaeth yn y brif Ddeddf, neu

(b) unrhyw ddeddfiad arall y mae i "ymgymerwr statudol" neu "ymgymeriad statudol" ynddo yr ystyr a roddir gan adran 303 o'r Ddeddf honno.

(2) Mae cyfeiriad at ymgymerwr statudol, mewn perthynas ag unrhyw adeg cyn i adran 303 o'r brif Ddeddf ddod i rym, i'w ddarllen fel pe bai'n cyfeirio at—

(a) unrhyw berson a oedd ar yr adeg honno yn ymgymerwr statudol o fewn yr ystyr a roddir i "statutory undertakers" gan adran 262(1) o DCGTh 1990 (neu gan y ddarpariaeth gyfatebol mewn deddfiad cynharach a oedd mewn grym ar yr adeg honno), a

(b) unrhyw berson arall a oedd yn cael ei drin ar yr adeg honno fel pe bai'n ymgymerwr statudol at ddibenion—

(i) darpariaeth mewn deddfiad a ddiddymwyd (neu mewn deddfiad cynharach a oedd mewn grym ar yr adeg honno) sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn y brif Ddeddf sy'n cynnwys y cyfeiriad, neu

(ii) y deddfiad arall sy'n cynnwys y cyfeiriad.

(3) Mae cyfeiriad at ymgymeriad statudol, mewn perthynas ag unrhyw adeg cyn i adran 303 o'r brif Ddeddf ddod i rym, i'w ddarllen pe bai'n cyfeirio at—

(a) unrhyw ymgymeriad a oedd ar yr adeg honno yn ymgymeriad statudol o fewn yr ystyr a roddir i "statutory undertaking" gan adran 262(2) o DCGTh 1990 (neu gan y ddarpariaeth gyfatebol mewn deddfiad cynharach a oedd mewn grym ar yr adeg honno), a

(b) unrhyw ymgymeriad arall a oedd yn cael ei drin ar yr adeg honno fel pe bai'n ymgymeriad statudol at ddibenion—

(i) darpariaeth mewn deddfiad a ddiddymwyd (neu mewn deddfiad cynharach a oedd mewn grym ar yr adeg honno) sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn y brif Ddeddf sy'n cynnwys y cyfeiriad, neu

(ii) y deddfiad arall sy'n cynnwys y cyfeiriad.

Cydsyniadau, penderfyniadau etc. o dan ddeddfiadau a ddiddymwyd

8 (1) Nid oes unrhyw beth mewn unrhyw ddarpariaeth yn y brif Ddeddf na'r Ddeddf hon yn effeithio ar ddilysrwydd nac effaith—

(a) unrhyw ganiatâd, unrhyw gydsyniad, unrhyw gytundeb nac unrhyw gymeradwyaeth sydd wedi ei roi neu ei rhoi, neu a drinnir fel pe bai wedi ei roi neu ei rhoi, cyn i'r ddarpariaeth ddod i rym;

(b) unrhyw ddarpariaeth, unrhyw gyfarwyddyd, unrhyw hysbysiad nac unrhyw orchymyn sydd wedi ei gwneud neu ei wneud neu ei dyroddi neu ei ddyroddi cyn i'r ddarpariaeth ddod i rym.

(2) Nid yw'r paragraff hwn yn cyfyngu ar unrhyw bŵer a roddir gan y brif Ddeddf nac unrhyw ddeddfiad arall.

Atebolrwydd troseddol o dan ddeddfiadau a ddiddymwyd

9 Nid oes unrhyw beth yn y brif Ddeddf na'r Ddeddf hon yn effeithio ar weithrediad deddfiad a ddiddymwyd mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd cyn iddo gael ei ddiddymu neu y cyhuddir person ohoni drwy gyfeirio at gyfnod a ddechreuodd cyn iddo gael ei ddiddymu.

RHAN 2

DARPARIAETHAU PENODOL

Arolwg o ardal awdurdod cynllunio: addasiad darfodol yn ymwneud ag awdurdodau yn Lloegr

10 Hyd nes y daw'r mewnosodiad o adran 15LG o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) gan Atodlen 7 i DFfBA 2023 i rym, mae adran 18(4)(b) o'r brif Ddeddf i'w darllen fel pe bai is-baragraff (ii) wedi ei hepgor.

Hyd cynlluniau datblygu lleol

11 (1) Yn adran 19 o'r brif Ddeddf, nid yw is-adrannau (5), (6) a (9) yn gymwys i gynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 (y diwrnod y daeth adran 12 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) i rym yn llawn).

(2) Yn adran 326(5)(a)(i) o'r brif Ddeddf, mae'r cyfeiriad at ddiwedd y cyfnod a bennir mewn cynllun datblygu perthnasol i'w ddarllen, mewn perthynas â chynllun a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016, fel cyfeiriad at ddiwedd cyfnod o 15 mlynedd o ddyddiad y gwrth-hysbysiad.

Cynlluniau datblygu unedol

12 (1) Yn erthygl 3(1) o Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 (O.S. 2005/2847), mae'r cyfeiriad at ddeddfiad a grybwyllir yn adran 38(7) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) i'w ddarllen fel cyfeiriad at unrhyw ddeddfiad y mae cyfeiriadau ynddo at y cynllun datblygu ar gyfer ardal i'w dehongli yn unol ag adran 10 o'r brif Ddeddf.

(2) Mae'r diffiniad o "cynllun datblygu perthnasol" ym mharagraff 1(2) o Atodlen 19 i'r brif Ddeddf (tir o dan falltod) i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys cynllun datblygu unedol sy'n parhau i ffurfio rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer ardal yn rhinwedd erthygl 3(1) a (2) o'r Gorchymyn hwnnw.

Ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol

13 (1) Nid yw'r diwygiadau a wneir i DCGTh 1990 gan Atodlen 1 i'r Ddeddf hon yn effeithio ar weithrediad adran 146(10) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 (dsc 3).

(2) Mae caniatâd cynllunio a roddir ar gais o dan adran 62D neu 62F o DCGTh 1990 fel y maent yn parhau i gael effaith yn rhinwedd y paragraff hwn i'w drin fel caniatâd a roddir o dan Ran 3 o'r brif Ddeddf.

Cyfarwyddydau y bernir bod caniatâd cynllunio wedi ei roi

14 (1) Pan fo deddfiad yn cyfeirio at gyfarwyddyd o dan Bennod 8 o Ran 3 o'r brif Ddeddf sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir yng Nghymru, mae'r cyfeiriad i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys cyfarwyddyd y bernir bod caniatâd o'r fath wedi ei roi, sydd wedi ei roi o dan adran 90 o DCGTh 1990 cyn i'r Bennod honno ddod i rym.

(2) Pan fo deddfiad yn cyfeirio at gyfarwyddyd o dan adran 5 o Ddeddf Piblinellau 1962 (p. 58) fod caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer datblygiad tir yng Nghymru, mae'r cyfeiriad i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys cyfarwyddyd y bernir bod caniatâd o'r fath wedi ei roi, sydd wedi ei roi o dan yr adran honno cyn i baragraff 48 o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon ddod i rym.

Hysbysiadau prynu: addasiadau darfodol yn ymwneud â phrynu gorfodol

15 (1) Hyd nes y bo adran 183(2) a (3) o DFfBA 2023 mewn grym yn llawn, mae adran 110(7)(b)(i) o'r brif Ddeddf i'w darllen fel pe bai'r geiriau o "neu pan ddaw i ben (ar ôl iddo gael ei gadarnhau'n amodol)" hyd at y diwedd wedi eu hepgor.

(2) Hyd nes y bo paragraff 3 o Atodlen 19 i DFfBA 2023 mewn grym yn llawn, mae adran 110(7)(b)(ii) o'r brif Ddeddf i'w darllen fel pe bai'r geiriau o "neu pan ddaw'r gorchymyn i ben" hyd at y diwedd wedi eu hepgor.

Hysbysiadau prynu yn ymwneud â thir mewn Parciau Cenedlaethol

16 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo, cyn i adrannau 110 a 223 o'r brif Ddeddf ddod i rym, hysbysiad prynu wedi ei gyflwyno i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru mewn perthynas â thir mewn Parc Cenedlaethol.

(2) Mae'r darpariaethau a ganlyn yn y brif Ddeddf, o ran eu cymhwysiad mewn perthynas â'r hysbysiad, i'w darllen fel pe bai cyfeiriadau at awdurdod cynllunio yn gyfeiriadau at y cyngor y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo—

(a) adran 376(9)(c);

(b) adran 381(3) a (7);

(c) paragraffau 5, 6(10), 8(1) a 9 o Atodlen 12.

Cofrestr o orchmynion datblygu lleol, ceisiadau cynllunio etc.

17 Mae'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys mewn cofrestr a gedwir gan awdurdod cynllunio o dan adran 111 o'r brif Ddeddf yn cynnwys unrhyw wybodaeth yr oedd, yn union cyn i'r adran honno ddod i rym, yn ofynnol i'r awdurdod ei chynnwys mewn cofrestr o dan adran 69 o DCGTh 1990 yn rhinwedd—

(a) paragraff 27(9) o Atodlen 9 i Ddeddf Swyddfa'r Post 1969 (p. 48) (datblygiad a gynigir gan y Postfeistr Cyffredinol: caniatâd cynllunio tybiedig);

(b) paragraffau 3 a 9(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) (hen ganiatadau mwyngloddio: cofrestru a phenderfynu amodau);

(c) paragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) (datblygiad gan neu ar ran y Goron: hysbysiadau o ddatblygiad arfaethedig).

Digolledu am golled neu ddifrod a achosir gan hysbysiad stop a ddyroddir gan Weinidogion Cymru

18 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan—

(a) bo hysbysiad gorfodi wedi ei gyflwyno gan Weinidogion Cymru cyn i adran 152 o'r brif Ddeddf ddod i rym, a

(b) bo hysbysiad stop sy'n ymwneud â'r hysbysiad gorfodi wedi ei gyflwyno cyn i'r adran honno ddod i rym, neu pan fo copi o hysbysiad stop o'r fath wedi ei gyflwyno ar ôl iddi ddod i rym.

(2) Mae adran 152 o'r brif Ddeddf yn gymwys i unrhyw hawliad am ddigolledi ad sy'n ymwneud â'r hysbysiad stop fel pe bai'r hysbysiad gorfodi wedi ei ddyroddi gan yr awdurdod cynllunio (ac yn unol â hynny mae unrhyw ddigolledi ad o dan yr adran honno yn daladwy gan yr awdurdod cynllunio).

Gorchmynion diogelu coed

19 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan wneir gorchymyn diogelu coed cyn y diwrnod perthnasol mewn perthynas â choed, grwpiau o goed neu goetiroedd yng Nghymru.

(2) I'r graddau y mae'r gorchymyn diogelu coed yn ymwneud â choed unigol, grwpiau o goed neu ardaloedd o goed—

(a) mae'r gorchymyn yn cael effaith, o ddechrau'r diwrnod perthnasol, gyda'i holl ddarpariaethau wedi eu hepgor heblaw unrhyw ddarpariaethau sy'n nodi'r gorchymyn neu'r coed unigol, y grwpiau o goed neu'r ardaloedd o goed y mae'n ymwneud ag ef neu â hwy, neu y gall fod yn ymwneud ag ef neu â hwy yn y dyfodol, a

(b) mae'r gorchymyn i'w drin, o ddechrau'r diwrnod perthnasol, fel pe bai'n orchymyn diogelu coed a wneir o dan y brif Ddeddf.

(3) I'r graddau y mae'r gorchymyn diogelu coed yn ymwneud â choetiroedd—

(a) mae'r gorchymyn yn cael effaith, o ddechrau'r diwrnod perthnasol, gyda'i holl ddarpariaethau wedi eu hepgor heblaw unrhyw ddarpariaethau sy'n nodi'r gorchymyn neu'r coetiroedd y mae'n ymwneud ag ef neu â hwy, a

(b) mae'r gorchymyn i'w drin, o ddechrau'r diwrnod perthnasol, fel pe bai'n orchymyn diogelu coetir a wneir o dan y brif Ddeddf.

(4) Mae'r cyfeiriad yn is-baragraff (1) at orchymyn diogelu coed yn gyfeiriad at orchymyn a wneir o dan, neu sy'n cael effaith fel pe bai wedi ei wneud o dan, adran 198(1) o DCGTh 1990.

(5) Yn y paragraff hwn ystyr "diwrnod perthnasol" yw'r diwrnod y daw Rhan 9 o'r brif Ddeddf i rym.

Caffael tir: cymhwyso darpariaethau i dir a ddelir gan Weinidogion Cymru

20 At ddibenion Rhan 10 o'r brif Ddeddf, mae tir a ddelir gan Weinidogion Cymru a gaffaelwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)) neu gan un o Weinidogion y Goron cyn iddo gael ei ddal gan Weinidogion Cymru i'w drin fel pe bai wedi ei gaffael gan Weinidogion Cymru.

Gorchmynion priffyrdd: gwrthwynebiadau gan awdurdodau Parc Cenedlaethol

21 (1) At ddibenion paragraff 4(1) a (2) o Atodlen 17 i'r brif Ddeddf, mae gwrthwynebiad a wneir gan awdurdod Parc Cenedlaethol cyn i'r Atodlen honno ddod i rym i'w drin fel gwrthwynebiad a wneir gan berson a grybwyllir ym mharagraff 4(1)(a)(ii) o'r Atodlen honno.

(2) At ddibenion paragraff 13(2) a (3) o Atodlen 17 i'r brif Ddeddf, mae sylw a gyflwynir neu wrthwynebiad a wneir gan awdurdod Parc Cenedlaethol cyn i'r Atodlen honno ddod i rym i'w drin fel sylw a gyflwynir neu wrthwynebiad a wneir gan berson heblaw awdurdod lleol.

Digolledu yn ymwneud â gorchmynion priffyrdd ac ymgymerwyr statudol: cymhwyso terfynau amser

22 (1) Nid yw is-adran (3) o adran 285 o'r brif Ddeddf yn gymwys i hawliad am ddigolledu sy'n ymwneud â chau mynedfa yn unol â gorchymyn a wneir cyn i'r adran honno ddod i rym.

(2) Nid yw is-adran (2) o adran 319 o'r brif Ddeddf yn gymwys i hawliad am ddigolledu sy'n ymwneud â phenderfyniad neu orchymyn a wneir cyn i'r adran honno ddod i rym.

Tir o dan falltod: addasiadau darfodol yn ymwneud â phrynu gorfodol

23 Hyd nes y bo'r ddarpariaeth a grybwyllir yng ngholofn gyntaf y Tabl mewn grym yn llawn o ran Cymru, mae'r addasiad i'r brif Ddeddf a nodir yn y cofnod cyfatebol yn yr ail golofn yn cael effaith.

TABL

Darpariaeth nad yw mewn grym yn llawn ar gyfer Cymru	**Addasiad i'r brif Ddeddf**
Adran 26(2) o DCC 2017	Mae adrannau 324(3)(c)(ii), 346(3)(d)(ii) a 348(3)(c)(ii) i'w darllen fel pe bai "neu 25" wedi ei roi yn lle ", 25 neu 27".
Adran 26(3)(a) o DCC 2017	Mae adran 326(2) i'w darllen fel pe bai paragraff (b) wedi ei hepgor.
Adran 26(3)(b) o DCC 2017	Mae adran 326(9) i'w darllen fel pe bai'r geiriau "i gymryd meddiant dros dro o dir yn orfodol (yn achos tir sy'n dod o fewn paragraff 27 o Atodlen 19)" wedi eu hepgor.
Adran 26(4) o DCC 2017	Mae adran 333(3) i'w darllen fel pe bai, yn y diffiniad o "pŵer caffael gorfodol", paragraff (b) (a'r "neu" o'i flaen) wedi ei hepgor.
Adran 26(5) o DCC 2017	Yn Atodlen 19, mae paragraff 37(1) i'w ddarllen fel pe bai paragraff (b) wedi ei hepgor.
Adran 26(6) o DCC 2017	Mae Atodlen 19 i'w darllen fel pe bai paragraff 53 wedi ei hepgor.
Adran 26(7) o DCC 2017	Mae Atodlen 19 i'w darllen fel pe bai paragraff 27 wedi ei hepgor.
Adran 190(5) o DFfBA 2023	Mae Rhan 13 i'w darllen fel pe bai adran 342 wedi ei hepgor.
Paragraff 5(3) o Atodlen 18 i DFfBA 2023	Yn Atodlen 19, mae paragraff 20(2) i'w ddarllen fel pe bai paragraff (c) (a'r "neu" o'i flaen) wedi ei hepgor.

Tystiolaeth mewn gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol: addasiadau darfodol

24 (1) Hyd nes y daw adran 369 o'r brif Ddeddf i rym, mae'r cyfeiriadau at yr adran honno yn y darpariaethau a grybwyllir yn is-baragraff (2) i'w darllen fel cyfeiriadau at adran 250(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).

(2) Y darpariaethau yw—

(a) adran 28F(11A) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69) (a fewnosodir gan baragraff 178(c) o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon),

(b) adran 28L(13A) o'r Ddeddf honno (a fewnosodir gan baragraff 180(c) o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon), a

(c) paragraff 10A(3A) o Atodlen 15 i'r Ddeddf honno (a fewnosodir gan baragraff 187(a) o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon).